

Cynyddu'r gwres cyn 2160: amser i gyflymu'r gwaith o drechu tlodi tanwydd

Ebrill 2025

1. Cyflwyniad

Darparodd codiadau cyflym a digynsail ym mhrisiau ynni y cefndir i'n gwaith dilynol ar dlodi tanwydd. Ers 2021 mae prisiau nwy a thrydan wedi cyrraedd eu lefelau uchaf erioed ac maent yn parhau i godi. Mae biliau aelwydydd ar gyfartaledd 43% yn uwch nag yn ystod gaeaf 2021-22 ac mae'r effaith ar gyllid aelwydydd ac ar gyfraddau tlodi tanwydd yn ddinistriol i'r rhai sy'n gallu ei fforddio leiaf.¹

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau ac argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y pwnc hwn. Mae'n ystyried effeithiolrwydd ymateb y llywodraeth i'r argyfwng hwn ac yn dilyn ein hadroddiad blaenorol ar y Rhaglen Cartrefi Clyd.² I gael rhagor o wybodaeth gefndir am yr ymchwiliad, ewch i [hafan yr ymchwiliad](#).

¹ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [Prisiau Ynni Domestig](#), 10 Rhagfyr 2024

² Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Tlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd](#), Mai 2022



Casglu tystiolaeth

2. Mae ein dull o gasglu tystiolaeth wedi'i nodi yn yr atodiadau. Diolchwn yn ddiffuant i bawb a gyfrannodd at y gwaith pwysig hwn.

2. Tloedi tanwydd yng Nghymru

3. Mae ystadegau tloedi tanwydd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021, ar ddechrau cyfnod o gynnydd sylweddol mewn prisiau costau byw. Mae'r ffigyrau hyn yn awgrymu bod 14% o aelwydydd Cymru yn byw mewn tloedi tanwydd, 3% mewn tloedi tanwydd difrifol, ac 11% mewn perygl o dloedi tanwydd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid gan gynnwys National Energy Action Cymru, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Age Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru bwysigrwydd ystadegau cyfredol.³

4. Rhannodd National Energy Action Cymru bryderon bod amcangyfrifon tloedi tanwydd yn seiliedig ar ddata sydd sy'n rhy hen i roi darlun cywir o'r sefyllfa, gan gynnwys Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18, Arolwg Byw yng Nghymru 2008, ac Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18.⁴

Cynllun trechu tloedi tanwydd

5. O dan Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i 'nodi amcanion interim i'w cyflawni a'r dyddiadau ar gyfer eu cyflawni'.⁵

6. Galwodd rhanddeiliaid gan gynnwys National Energy Action Cymru, y Comisiynydd Pobl Hŷn, a Sefydliad Bevan ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau effeithlonrwydd ynni interim.⁶ Mynegodd Sefydliad Bevan bryderon fod y targedau tymor hwy yn caniatáu i bethau ddrifftio am gyfnod o amser, tra bod targedau interim yn gyfle i fyfrio ynghylch a yw'r buddsoddiad yn cyflawni'r newid yr ydym am ei weld.⁷

³ Tystiolaeth ysgrifenedig, National Energy Action Cymru, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Age Cymru, Cyngor ar Bopeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych

⁴ [Arolwg Byw yng Nghymru, Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18](#)

⁵ [Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000](#)

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, National Energy Action, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Marie Curie, [Cofnod y Trafodion, 9 Rhagfyr](#), paragraff 54

⁷ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Rhagfyr 2024, paragraff 19

Yr hyn a ddywedodd Llywodraeth Cymru

7. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn datblygu amcangyfrifon tloidi tanwydd wedi'u diweddarau, a disgwylir iddynt fod yn barod erbyn haf 2025. Ar ôl gwneud hyn, mae'n dweud y bydd yn gweithio gyda'i Phanel Cyngori ar Dloidi Tanwydd i gytuno ar dargedau interim ystyrllon ar gyfer y cynllun gweithredu trechu tloidi tanwydd, yn seiliedig ar sgoriau'r Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC).⁸

Ein barn ni

Mae'r argyfwng ym marchnadoedd ynni'r byd wedi cynyddu pryderon o ran tloidi tanwydd a sicrwydd ynni. Mae'n sefyllfa sy'n gofyn am ymateb brys a chadarn. Felly, rydym wedi'n siomi gan batrwm yr oedi a'r terfynau amser a fethwyd sydd wedi dod yn nodwedd o agweddau ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i drechu tloidi tanwydd. Un o'n hargymhellion blaenorol oedd i Lywodraeth Cymru adolygu blaenoriaethau ei Chynllun Trechu Tloidi Tanwydd a gosod targedau interim. Pan gyhoeddodd ei chynllun ar 2 Mawrth 2021, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n adolygu'r cynllun yn 2023 ac yn cyhoeddi diwygiadau wedyn. Nid yw'r targedau interim na Chynllun Trechu Tloidi Tanwydd diwygiedig wedi dod i'r golwg, dros ddwy flynedd wedi hynny.

Yn rhwystredig, er gwaethaf anwadalrwydd parhaus mewn prisiau, nid ydym yn gwybod gwir faint tloidi tanwydd yng Nghymru heddiw. Cafodd amcangyfrifon swyddogol o nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tloidi tanwydd eu cyfrifo ddiwethaf yn 2021 ac maent bellach wedi dyddio ers blynyddoedd. Yn hollbwysig, maent yn rhagddyddio'r codiadau sylweddol mewn prisiau costau byw a ddechreuodd tua diwedd pandemig COVID-19, ac maent yn cael eu modelu gan ddefnyddio data hyd yn oed yn hŷn o Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18.

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei dull o drechu tloidi tanwydd yn gyfredol ac yn addas i'r diben. Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyn drwy:

- ddiweddarau'r data sy'n llywio amcangyfrifon o dloidi tanwydd a chyhoeddi amcangyfrifon tloidi tanwydd cyfredol erbyn mis Medi 2025;
- gosod targedau tloidi tanwydd interim cyn gynted â phosibl ac erbyn mis Medi 2025 fan bellaf; a

⁸ Llywodraeth Cymru, [Cynllun Trechu Tloidi Tanwydd 2021](#), diweddarwyd 2 Mawrth 2021

- chyhoeddi Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd diwygiedig erbyn diwedd mis Mehefin 2025 sy'n cynnwys camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Data Sylfaen ar gyfer Strategaethau Ynni Cadarn ('FRESH') ar gyfer Mapio Bregusrwydd Tai

8. Mae academyddion o Brifysgol Caerdydd a Cymru Gynnes wedi datblygu offeryn 'mapio bregusrwydd FRESH,' sy'n nodi'r aelwydydd sydd fwyaf angen cymorth i wresogi eu cartrefi.⁹ Gellir defnyddio'r offeryn i dargedu mesurau lle mae eu hangen fwyaf. Mae'n costio £5,000 i awdurdodau lleol gael mynediad at yr offeryn, ac mae pump yng Nghymru yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

9. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi manteisio ar FRESH, naill ai oherwydd y gost neu oherwydd diffyg adnoddau penodol i wneud hynny. Dywedodd Cymru Gynnes wrthym fod y mwyafrif llethol o awdurdodau lleol yn tanddefnyddio'r cyfle i gael y data mapio a fyddai wir yn nodi ac yn amlygu amddifadedd, stoc tai gwael ac afiechyd.¹⁰ Nid oedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar FRESH ychwaith.

10. Priodolodd Cyngor Rhondda Cynon Taf yr amrywiaeth mewn dull rhwng awdurdodau lleol i'r ffaith nad yw trechu tlodi tanwydd yn swyddogaeth statudol.¹¹ Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi prynu mapio FRESH ond mae awdurdodau lleol eraill wedi mabwysiadu eu dull eu hunain, er enghraifft mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu ei system ei hun gan ddefnyddio Power BI.¹²

Yr hyn a ddywedodd Llywodraeth Cymru

11. Nid oedd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, yn gyfarwydd â mapio bregusrwydd FRESH. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cysylltiadau gyda'r Sefydliad Ymchwil Prydeinig a oedd yn cynnal yr asesiad tlodi tanwydd presennol. Dywedodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn i awdurdodau lleol ddarparu amcangyfrifon lleol, lle bo modd.

⁹ Gweler: Cymru Gynnes, [Mapio bregusrwydd FRESH](#) a Phrifysgol Caerdydd, [Rhoi sylw i dlodi tanwydd](#)

¹⁰ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Rhagfyr 2024

¹¹ [Cofnod y Trafodion](#), 9 Rhagfyr 2024

¹² [Cofnod y Trafodion](#), 9 Rhagfyr 2024

12. Yn olaf, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod offer mapio masnachol yn ddiddorol, ond tynnodd sylw at y ffaith bod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn adnodd rhad ac am ddim.¹³

Ein barn ni

Rydym yn nodi manteision posibl offeryn mapio bregusrwydd FRESH a bod pum awdurdod lleol yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i gwrdd â Cymru Gynnes i gynyddu dealltwriaeth o FRESH, ac i ystyried manteision cefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru i ddefnyddio'r offeryn.

Os nad yw hyn yn bosibl, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid digonol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gaffael neu ddatblygu offer mapio tloidi tanwydd sy'n briodol i'w hardaloedd i helpu i nodi'r lleoedd sy'n dioddef mwyaf o ran tloidi tanwydd. Bydd hyn yn sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru a rhaid iddo gael ei wneud mewn ffordd sy'n ategu meysydd gwaith cysylltiedig eraill fel ECO4 Flex.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i fanteision FRESH ac offer mapio eraill a sut y gall partneriaid yn y llywodraeth ddefnyddio'r rhain i drechu tloidi tanwydd. Er mwyn cyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru geisio cyfarfod gyda Cymru Gynnes (ar lefel swyddogion) er mwyn cael gwell dealltwriaeth o offeryn mapio FRESH a darparu adnoddau yn dilyn hynny ar gyfer cyflwyno FRESH neu offer mapio tebyg i'w defnyddio gan gyrff perthnasol gan gynnwys yr holl awdurdodau lleol. Byddem yn croesawu diweddariad ar gynnydd erbyn diwedd Gorffennaf 2025 fan bellaf.

3. Y Rhaglen Cartrefi Clyd ddiweddaraf.

A yw'r cyllid yn ddigonol?

13. Dyrannodd y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2025-26 £37.5 miliwn o gyllid cyfalaf i'r Rhaglen Cartrefi Clyd.¹⁴ Mae hyn yn gynnydd o 7% o'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2024-25. Dywedodd rhanddeiliaid fod y lefel hon o gyllid yn annigonol o ystyried faint o dlodi tanwydd sydd yng Nghymru.

¹³ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2025

¹⁴ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Derfynol 2025 i 2026, dyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant

14. Roedd ffigurau a ddarparwyd gan National Energy Action Cymru (gweler tabl 1 isod) yn dangos bod cyllid ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd yn wastad ym mlynnyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25.

Tabl 1 buddsoddiad yn y Rhaglen Cartrefi Clyd

Blwyddyn gyllideb	Buddsoddiad i'r Rhaglen Cartrefi Clyd¹⁵
2021-2022	£27 miliwn
2022-2023	£30 miliwn
2023-2024	£35 miliwn
2024-2025	£35 miliwn
2025-2026	£37.5 miliwn (gan gynnwys llithriad o £2.5 miliwn)

15. Tynnodd Sefydliad Bevan sylw at ddisgwyliad Llywodraeth Cymru y byddai tua 11,500 o gartrefi yn cael eu haddasu dros gyfnod o 7 mlynedd. Ar y cyflymder hwn ni fyddai gwaith i gyrraedd yr holl aelwydydd tlawd o ran tanwydd yng Nghymru yn cael ei gwblhau tan 2160.¹⁶

16. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cynyddu'r cap cyllideb er mwyn galluogi mesurau mwy gwyrdd ac ôl-osod mewn ymateb i adborth ar yr iteriad blaenorol o Nyth. Fodd bynnag, byddai cyflawni gwaith ôl-osod dyfnach a drutach yn effeithio ar nifer yr aelwydydd y maent yn gallu eu cynnal: roedd yn rhagweld cefnogi 1,500 o aelwydydd y flwyddyn trwy'r cynllun Nyth newydd o'i gymharu â chyfartaledd o 4,000 flwyddyn ynghynt.¹⁷

17. Dywedodd National Energy Action Cymru y gellid defnyddio swm canlyniadol posibl o £170 miliwn o ganlyniad i gyllid ychwanegol ar gyfer Cynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth y DU i roi hwb sylweddol i'r rhaglen yng Nghymru.¹⁸

Yr hyn a ddywedodd Llywodraeth Cymru

18. Pan ofynnwyd iddi a fyddai wedi bod yn bosibl sicrhau mwy o gyllid ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Clyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26, dywedodd Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, ei bod yn bwysig bod y gyllideb yn adlewyrchu'r hyn y gellir ei gyflawni. Dywedodd fod capasiti contractwyr yn

¹⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Eitem 2, Papur i Nodyn 1: gohebiaeth gan NEA Cymru, 24 Mawrth 2025

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Sefydliad Bevan, yn seiliedig ar tua 1,600 o gartrefi'r flwyddyn am 7 mlynedd ac amcangyfrif o 217,700 o aelwydydd mewn tloedi tanwydd

¹⁷ Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, eitem 2, 27 Ionawr 2025

¹⁸ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2024

problem ac, er bod uwchsgilio'n digwydd, nid yw hynny'n mynd i ddigwydd dros nos¹⁹

19. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd os gall y rhaglen ragori ar y niferoedd disgwylid yn ystod y flwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio unrhyw gyllid heb ei wario o feysydd eraill.²⁰

20. Ni wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai ymrwymo i ddyrannu unrhyw symiau canlyniadol posibl fformiwla Barnett, gan ddweud y byddai angen trafod y mater yn y Cabinet a fyddai'n penderfynu ar flaenoriaethau yn y pen draw.²¹

Ein barn ni

Mae'n anodd anghytuno â barn rhanddeiliaid nad yw lefel y buddsoddiad yn y Rhaglen Cartrefi Clyd yn agos at yr hyn sydd ei angen i gyfateb i faint yr her o roi terfyn ar dlodi tanwydd. Wrth ystyried siociau o ran prisiau ynni diweddar, mae'n sboreiddiol ystyried bod gwariant ar y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi parhau'n weddol wastad ers 2021-22 wrth gyfrif am chwyddiant.²² Ynghyd â chostau uwch sy'n gysylltiedig â rhai technolegau mwy newydd, mae hyn yn debygol o fod wedi erydu pŵer prynu'r cyllid hwn yn gyffredinol.

Casgliad 1. Rydym yn nodi nad yw buddsoddiad uniongyrchol yn y Rhaglen Cartrefi Clyd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2021-22 wrth gyfrif am chwyddiant ac y bydd hyn, ynghyd â chostau uwch sy'n gysylltiedig â thechnolegau mwy newydd wedi erydu pŵer prynu'r cyllid hwn dros amser.

Rydym yn glir bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i gynyddu maint cynllun Nyth fel bod cymaint o aelwydydd â phosibl yn cael eu cefnogi. Dylai capasiti contractwyr fod y ffactor sy'n cyfyngu ar gefnogi mwy o gartrefi, nid cyllid annigonol.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu maint rhaglen Nyth fel bod cymaint o gartrefi â phosibl yn cael eu cefnogi. Dylai wneud hyn drwy:

- barhau i weithio gydag adeiladwyr a gosodwyr i gynyddu capasiti a sgiliau yn y sector; a

¹⁹ Ffigurau a ddarparwyd gan National Energy Action Cymru – gwybodaeth ychwanegol

²⁰ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2025

²¹ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2025

²² Credir bod £27 miliwn yn 2021-22 gyfwerth â £32.2 miliwn heddiw yn ôl [Cyfrifiannell termau real SPICe](#).

- ymrwymo i sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol gan gynnwys unrhyw danwariant, neu arian canlyniadol fformiwla Barnett sy'n deillio o gynnydd mewn cyllid ar gyfer trechu tlodi tanwydd yn Lloegr, yn cael ei fuddsoddi yn y Rhaglen Cartrefi Clyd.

Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â chyllid yn y flwyddyn ariannol 2025-26 i ddechrau a blynyddoedd ariannol y dyfodol.

Cydbwysedd rhwng datgarboneiddio a threchu tlodi tanwydd

21. Gofynnodd rhai rhanddeiliaid a oedd y cydbwysedd yn iawn rhwng nodau datgarboneiddio Nyth a'r nodau trechu tlodi tanwydd.²³ Dadleuodd Care & Repair fod Nyth yn canolbwyntio'n ormodol ar osod technolegau carbon isel ar draul dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.²⁴ Cyfeiriodd at achos menyw â nam ar eu golwg yn ei 80au a gafodd bwmp gwres ffynhonnell aer ond heb fesurau inswleiddio. O ganlyniad, ni allai wresogi ei chartref uwchlaw 18 gradd a bu'n rhaid iddi brynu gwresogyddion trydan i gadw'n gynnes.²⁵ Nododd hefyd ostyngiad sylweddol yn nifer y cleientiaid a gyfeiriwyd at y cynllun (6 ym mis Ebrill i Fedi 2024 o'i gymharu â 60 ar gyfer yr un cyfnod yn 2023).²⁶

22. Dywedodd Sefydliad Bevan a National Energy Action Cymru wrthym y bu adroddiadau bod aelwydydd a fyddai fel arall yn gymwys yn cael eu troi i ffwrdd oherwydd nad oedd pwmp gwres yn cael ei ystyried yn addas (naill ai oherwydd y byddai'r costau gweithredu yn gwthio'r aelwyd yn ddyfnach i dlodi tanwydd, neu oherwydd nad oedd yn bosibl yn dechnegol).²⁷

Yr hyn a ddywedodd Llywodraeth Cymru

23. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai fod dau amcan y Rhaglen Cartrefi Clyd yn mynd law yn llaw ac y byddai datgarboneiddio yn arwain at well effeithlonrwydd ynni a biliau is.²⁸ Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yn fwriad i wrthod aelwydydd nad ydynt yn addas ar gyfer pypmpiau gwres ffynhonnell aer, gan bwysleisio bod amrywiaeth o fesurau megis paneli solar, gwydrau dwbl, ac inswleiddio hefyd ar gael.²⁹ Cadarnhaodd Jayne Bryant AS

²³ Gweler [tystiolaeth ysgrifenedig](#) gan y Comisiynydd Pobl Hŷn; Sefydliad Bevan

²⁴ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Rhagfyr 2024

²⁵ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Rhagfyr 2024

²⁶ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Rhagfyr 2024

²⁷ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Rhagfyr 2024

²⁸ [Cofnod y Trafodion](#), 27 Ionawr 2025

²⁹ [Cofnod y Trafodion](#), 27 Ionawr 2025

hefyd fod adolygiad o Nest ar y gweill ar hyn o bryd ac yn debygol o adrodd ym mis Ebrill/Mai 2025.³⁰

Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r ffaith mai nod yr iteriad newydd o Nyth yw blaenoriaethu ymyriadau gwyrdd dros danwydd ffosil, yn unol â chanfyddiadau ein hadroddiad blaenorol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am adroddiadau nad yw'r cynllun efallai yn edrych ar anghenion unigolion mewn ffordd ddigon cyfannol. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod technolegau mwy newydd fel pŷmpiau gwres yn addas i'r eiddo a'i drigolion a bod deiliaid tai yn cael eu cefnogi ac yn hyderus o ran sut i'w defnyddio. Rhaid i'r adolygiad presennol o Nyth fynd i'r afael â'r materion hyn yn fanylach.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr adolygiad presennol o Nyth yn cynnwys gwerthusiad o'r canlynol:

- y broses a ddefnyddir gan aseswyr i ystyried bod pŷmpiau gwres ffynhonnell aer yn briodol ar gyfer anghenion unigolyn yn ogystal â bod yn briodol ar gyfer yr eiddo; a
- sut y gall y cynllun wella codi ymwybyddiaeth a hyfforddi deiliaid tai i ddeall technolegau mwy newydd, gan gynnwys pŷmpiau gwres ffynhonnell aer.

Dylai hyn gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2025.

Atgyweirio boeler mewn argyfwng

24. Mynegwyd pryderon bod y meini prawf cymhwystra ar gyfer y llwybr 'atgyweirio/amnewid boeler mewn argyfwng' yn rhy llym, gan adael pobl agored i niwed heb wres.³¹ Mewn ymateb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2024 newidiadau i'r meini prawf cymhwystra fel y gall pob ymgeisydd sy'n gymwys am Nyth gael boeler wedi'i atgyweirio neu gael boeler newydd os nad yw'r gwres neu'r dŵr poeth yn gweithio.

25. Roedd rhanddeiliaid yn croesawu llacio'r meini prawf cymhwysedd, a galwodd y Comisiynydd Pobl Hŷn am i'r trefniadau barhau y tu hwnt i fis Mawrth

³⁰ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2025

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig gan National Energy Action Cymru; Comisiynydd Pobl Hŷn

2025. Roedd rhai yn pryderu, fodd bynnag, na fyddai'r llwybr boeler mewn argyfwng yn cael ei hyrwyddo'n ddigon eang.³²

Yr hyn a ddywedodd Llywodraeth Cymru

Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai y bwriad i gadw'r llwybr argyfwng y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Fodd bynnag, rhybuddiodd fod angen taro cydbwysedd, a dywedodd na fyddwn yn datgarboneiddio cartrefi pobl os yw'n tipio nôl i gynllun ailosod boeler.³³ Dywedodd fod gwybodaeth wedi cael ei rhannu'n eang trwy randdeiliaid a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni chanfu adolygiad o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol cynllun Nyth gan Ymchwil y Senedd unrhyw enghreifftiau o'r llwybr argyfwng yn cael ei hyrwyddo, ar 17 Chwefror 2025.

Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r eglurhad a gafwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r llwybr atgyweirio boeler mewn argyfwng ac yn cytuno y dylai trefniadau i sicrhau nad oes unrhyw berson sy'n agored i niwed yn cael ei adael heb wres na dŵr poeth fod ar waith drwy gydol cyfnod y cynllun. Mae angen i gleientiaid fod yn ymwybodol hefyd o'r opsiynau sydd ar gael iddynt ac er i Ysgrifennydd y Cabinet honni bod y llwybr argyfwng yn cael ei hyrwyddo, ni chanfu adolygiad gan Ymchwil y Senedd unrhyw dystiolaeth o hyn. Mae'n hanfodol bod Ysgrifennydd y Cabinet yn egluro'r adroddiadau gwrthgyferbyniol hyn ac yn sicrhau bod neges glir a chyson yn cael ei chyfleu i gwsmeriaid.

Cael mynediad at gynllun newydd Nyth

26. Roedd diffygion yn hyfforddiant gweithwyr achos Nyth a diffyg gwybodaeth fanwl am y meini prawf cymhwysedd yn bryder i rai gan gynnwys Cymru Gynnes a Care & Repair.³⁴ Gwnaethant ddweud bod gweithwyr achos Nest yn aml yn dangos diffyg gwybodaeth ac adroddodd am achosion lle y bu'n rhaid iddynt gyngori'r gweithwyr achos.³⁵ Yn ogystal, tynnodd Care & Repair sylw at

³² Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2024, paragraff 80

³³ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2025.

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymru Gynnes, Care & Repair.

³⁵ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2024

enghreifftiau o atgyfeiriadau a gollwyd ac amlygodd Cymru Gynnes oedi o hyd at chwe mis cyn derbyn canlyniad ceisiadau.³⁶

27. Darperir gwasanaethau atgyfeirio Nest gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a gwasanaethau gosod gan British Gas. Dywedodd cynrychiolydd o'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wrthym mewn ymateb fod y pryderon wedi'u nodi ac y byddai'n mynd â nhw at y bobl berthnasol.

Yr hyn a ddywedodd Llywodraeth Cymru

28. Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai lefel 'anochel' o anfadlonrwydd cwsmeriaid â'r gwasanaeth, a nododd fod cwynion ymhell islaw'r targed o 3 y cant ac yn is na 1 y cant o gyfanswm nifer y bobl a gefnogwyd. Dywedodd, yn ôl arolwg diwedd galwad Nyth, fod y gwasanaeth cwsmeriaid yn rhagorol ac o'r radd flaenaf.³⁷

Ein barn ni

Rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid a gwrth-ddadl Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch lefelau boddhad cwsmeriaid. O ystyried na fyddai cwsmeriaid sy'n dod oddi ar y llwybr atgyfeirio neu sy'n cael ei hysbysu'n anghywir nad ydynt yn gymwys yn ymddangos yn y data boddhad cwsmeriaid, credwn y byddai mwy o sicrwydd ynglŷn â hyn yn ddefnyddiol.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr adolygiad presennol o Nest yn cynnwys asesiad o'r canlynol:

- nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu gwrthod a sut mae'r cyfraddau hyn yn cymharu ag iteriadau blaenorol o'r cynllun; a'r
- hyfforddiant a'r datblygiad a ddarperir i weithwyr achos Nyth gyda'r bwriad o sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn am y cynllun.

Dylai'r adolygiad gael ei gwblhau erbyn Gorffennaf 2025 fan bellaf a dylid rhannu ei ganlyniadau â'r Pwyllgor.

Contractau a threfniadau monitro

29. Roedd methiannau sy'n gysylltiedig â rheoli contractau iteriad blaenorol cynllun Nest yn thema bwysig yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021.

³⁶ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2024

³⁷ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2025

Roedd Argymhelliad 5 yr Archwilydd Cyffredinol yn argymhell trefniadau rheoli contract mwy effeithiol gan gynnwys:

- cynnal gwaith meincnodi priodol rhwng cynigwyr;
- sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro'n agosach; a
- cael cymorth mwy amserol a chynhwysfawr o drefniadau sicrhau ansawdd allanol annibynnol.

30. Pwysleisiodd National Energy Action Cymru, ac eraill, yr angen am fonitro a gwerthuso cadarn.³⁸ Fodd bynnag, cytunodd sawl un ei bod yn rhy gynnar i ddweud sut mae'r cynllun Nyth newydd yn perfformio oherwydd diffyg data caled.

31. Mae datganiad polisi Nyth³⁹ yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn “disgwyl” cynnwys targedau lleihau carbon blynyddol ac adroddiadau arnynt, o safbwynt yr aelwydydd unigol ac o safbwynt y rhaglen gyfan.

Yr hyn a ddywedodd Llywodraeth Cymru

32. Dywedodd swyddog fod Llywodraeth Cymru yn ôl pob tebyg wedi gweithredu holl argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â rheoli contractau.⁴⁰

33. Er mwyn sicrhau cyllid digonol i atgyweirio unrhyw ddiffygion yn y gwaith gosod, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod taliad cadw o 10% wedi'i gyflwyno ym mlwyddyn olaf y contract a bod swyddogion yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso.⁴¹

Ein barn ni

O ystyried y pwyslais a roddwyd ar reoli contractau'n well gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn ein hadroddiad blaenorol, mae'n galonogol bod llawer o'r rhain wedi cael sylw yng nghynllun newydd Nyth. Fodd bynnag, mae'n gynnar o hyd, a bydd monitro perfformiad yn rheolaidd ac effeithiol yn allweddol. Yn hyn o beth, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cymaint o dryloywder â phosibl a bod data yn cael eu casglu, eu dadansoddi a'u cyhoeddi'n rheolaidd. Byddai hyn yn

³⁸ [Cofnod y Trafodion](#), 2 Rhagfyr 2024; [tystiolaeth ysgrifenedig](#), Care & Repair

³⁹ Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Cartrefi Cilyd Newydd: datganiad polisi](#)


⁴⁰ [Cofnod y Trafodion](#), 27 Ionawr 2025

⁴¹ [Cofnod y Trafodion](#), 27 Ionawr 2025

sicrhau bod y trefniadau yn cyd-fynd ag argymhellion 13, 14, 15 ein hadroddiad blaenorol.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cymaint o dryloywder â phosibl a bod data monitro perfformiad allweddol mewn perthynas â Nyth yn cael eu cyhoeddi o leiaf bob blwyddyn. Dylid cwblhau'r argymhelliad hwn yn unol â'r cylchoedd adrodd ar gyfer adroddiadau blynyddol Nyth.

Ffigur 1 Cymhariaeth o nodweddion allweddol cynllun Nyth â'r iteriad blaenorol



Galwadau am gynllun ar sail ardal

34. Galwodd rhanddeiliaid am gynllun newydd ar sail ardal wedi'i ariannu'n briodol.⁴² Dywedodd Cymru Gyntes:

⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig gan National Energy Action Cymru, Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol, Cyngor ar Bopeth Cymru

*"...an area-based scheme is vital. If we're doing a pepper-pot solution through a Nest type of approach, we're going to be here ... for 100 years. When you do an area-based approach, where we can get volume, (1) it's cheaper, (2) we do it quicker, and (3) we do more properties."*⁴³

Yr hyn a ddywedodd Llywodraeth Cymru

35. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai swyddogion yn adolygu cynllun Nyth yn gyntaf, a arweinir gan y galw, cyn canolbwyntio ar y cynllun ar sail ardal:

*"Once we're confident that the demand-led scheme's working well, we intend to discuss further with the contractor the potential to expand into small area-based activity, such as blocks of flats and terraced housing..."*⁴⁴

36. At hynny, dywedodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd y ddwy elfen yn cael eu rhedeg ar yr un pryd oherwydd na fyddai'n bosibl cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o gynllun newydd Nyth i gynllun ar sail ardal.

Ein barn ni

Daeth Arbed 3, y cynllun ar sail ardal blaenorol, i ben yn 2021. Roedd hyn yn gynharach na'r disgwyl yn sgil problemau o ran perfformiad y cynllun. Pan wnaethom adrodd yn 2022, roeddem wedi rhagdybio y byddai cynllun newydd ar sail ardal, Arbed 4, wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'n ymddangos bellach, yn hytrach na datblygu'r cynllun ar sail ardal newydd ochr yn ochr â'r cynllun a arweinir gan y galw, bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu strwythuro ei hamser yn olynol, gan ganolbwyntio ar gynllun ar sail ardal ar ôl iddi adolygu'r cynllun a arweinir gan y galw. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn i strwythuro'n olynol, bydd bwlch o o leiaf bedair blynedd rhwng diwedd Arbed 3 a'i olynnydd. Afraid dweud ein bod yn hynod siomedig i glywed am hyn. O ystyried y gwerthusiad trylwyr o Arbed 3 a gynhaliwyd nôl yn 2021-22, rydym yn ei chael yn anodd deall pam y mae angen trefnu'r gwaith yn y ffordd olynol hon, a sut y gellir cyfiawnhau'r bwlch hwn.⁴⁵

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflymu ei datblygiad a sefydlu cynllun newydd ar sail ardal fel mater o frys. Er mwyn sicrhau atebolrwydd, dylai

⁴³ Cofnod y Trafodion, 2 Rhagfyr 2025

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, 27 Ionawr 2025

⁴⁵ Llywodraeth Cymru a Miller Research, Gwerthusiad o Arbed 3: adroddiad terfynol.

Llywodraeth Cymru nodi map llwybr o amserlenni a cherrig milltir rhwng nawr a'r dyddiad targed ar gyfer mynd yn fyw (pan gaiff y mesurau effeithlonrwydd ynni cyntaf eu gosod yn ffisegol mewn eiddo) erbyn diwedd mis Mehefin 2025. O ystyried y bwlch sylweddol ers diwedd y cynllun diwethaf, byddem yn disgwyl i'r map llwybr hwn fod yn uchelgeisiol ond yn gyflawnadwy.

4. Materion eraill

Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO)

37. Mae ECO4 Flex yn fecanwaith atgyfeirio cartrefi o fewn cynllun effeithlonrwydd ynni ECO4 sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth y DU.⁴⁶ Mae ECO4 Flex yn galluogi awdurdodau lleol i ehangu'r meini prawf cymhwysedd ECO, gan ganiatáu iddynt deilwra'r cynlluniau i'w hardal. Mae sicrhau'r mynediad mwyaf posibl at ECO4 yn un o nodau polisi datganedig Llywodraeth Cymru.⁴⁷

38. Dywedodd National Energy Action Cymru, Care & Repair, a Chyngor ar Bopeth Cymru bod ECO yn gyfle i gael cymorth ychwanegol i aelwydydd Cymru a dylid gwneud mwy i gynyddu cyfranogiad mewn cynlluniau ECO.⁴⁸

39. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan Cymru Gyntes, Care & Repair ac eraill ynghylch ansawdd y saerniaeth o dan ECO, a threfniadau ar gyfer gwneud iawn i gwsmeriaid o dan y cynllun.⁴⁹

Yr hyn a ddywedodd Llywodraeth Cymru

40. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod pob awdurdod lleol yng Nghymru bellach yn darparu cynllun ECO4 Flex. Er mwyn cefnogi ei nod o sicrhau'r mynediad mwyaf posibl at y cynllun, mae wedi darparu £350,000 i awdurdodau lleol er mwyn denu cymaint o gyllid â phosibl i Gymru.⁵⁰ Nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai yn gallu dweud faint o gyllid a ddenwyd o ganlyniad i hynny er gwaethaf ymdrechion i gael y wybodaeth hon gan ardystwyr y cynllun, TrustMark. Byddai'r Llywodraeth yn parhau i wthio'r mater â TrustMark.⁵¹

⁴⁶ Ofgem, [Energy Company Obligation](#).

⁴⁷ Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Cartrefi Cylw Newydd: datganiad polisi](#).

⁴⁸ [Tystiolaeth ysgrifenedig](#), National Energy Action Cymru, Care & Repair, Cyngor ar Bopeth Cymru

⁴⁹ [Cofnod y Trafodion, paragraffau 105](#)

⁵⁰ [Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, eitem 2](#), 27 Ionawr 2025

⁵¹ [Cofnod y Trafodion](#), 27 Ionawr 2025

41. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod £500,000 ychwanegol wedi'i ddyfarnu i awdurdodau lleol yn y flwyddyn ariannol hon i unioni'r rhwystrau sy'n weddill.⁵²

Ein barn ni

Mae ECO4, ynghyd â buddsoddiad arfaethedig Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn yr economi werdd yn fwy cyffredinol yn darparu cyfleoedd newydd i ddenu buddsoddiad ychwanegol i Gymru. Rydym yn croesawu'r cyllid a ddyrennir i awdurdodau lleol at y diben hwn ond deallwn er mwyn iddo gael ei wario'n ddoeth, rhaid bod amodau ynghlwm wrtho. Bydd mesur swm y cyllid ECO4 sydd wedi'i sicrhau yn fetrig allweddol ac mae'n siomedig bod TrustMark wedi bod yn anfodlon neu'n methu â darparu'r wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru. Rydym yn cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i bwysu ar Trustmark ynghylch y mater.

At hynny, rydym yn nodi gyda phryder y problemau parhaus o ran ansawdd, safonau a'r diffyg o ran gwneud iawn y gwsmeriaid o dan ECO4 a'r potensial sydd gan hyn i danseilio ymddiriedaeth ymhellach yn y cynllun a chadwraeth ynni yn gyffredinol. Rydym yn croesawu sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd gosodwyr tramgwyddus yn talu i gywiro diffygion ar eu traul eu hunain ac yn wynebu cael eu hatal.⁵³ Fodd bynnag, bydd angen i Lywodraeth Cymru fonitro'r sefyllfa'n ofalus i sicrhau y cedwir at y sicrwydd hwnnw.

Casgliad 2. Mae'n siomedig bod TrustMark wedi bod yn amharod neu'n methu â darparu data wedi'u dadgyfuno yn unol â chais Llywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau atebolrwydd, rydym yn cefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i bwysu ar y mater hwn a rheoli ansawdd gyda hwy a chyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU.

Taliadau Tanwydd Gaeaf

42. O aeaf 2024/2025 ymlaen, ni fydd gan aelwydydd yng Nghymru a Lloegr yr hawl i'r Taliad Tanwydd Gaeaf oni bai eu bod yn derbyn Credyd Pensiwn neu fudd-daliadau penodol eraill. Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif na fydd tua 400,000 o gartrefi yng Nghymru (tua 528,000 o bensiynwyr yn ôl amcangyfrif Ymchwil y Senedd) yn cael y Taliad Tanwydd Gaeaf mwyach.

⁵² [Cofnod y Trafodion](#), 27 Ionawr 2025

⁵³ [Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai yn ymateb i weithredu gan Lywodraeth y DU ar gynlluniau ECO4 a GBIS](#) 23 Ionawr 2025

43. Dywedodd Age Cymru fod ymholiadau i'w linell gyngor yn ymwneud â Thaliadau Tanwydd Gaeaf wedi cynyddu mwy na 1000% yn 2024 o gymharu â 2023, a 99% mewn perthynas â Chredyd Pensiwn.⁵⁴

44. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn a National Energy Action Cymru Cymru fod tua 50,000 o aelwydydd yng Nghymru yn gymwys i gael Credyd Pensiwn ond nad ydynt yn ei gael ar hyn o bryd, sy'n golygu y byddent yn colli allan ar y Taliad Tanwydd Gaeaf.⁵⁵

45. Galwodd y Comisiynydd Pobl Hŷn ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfa benodol i gefnogi pobl hŷn a fyddai'n colli eu Taliadau Tanwydd Gaeaf a chyfeiriodd at gronfeydd tebyg yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.⁵⁶ Tynnodd hi a'r Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor sylw at anawsterau o ran sut mae cymorth Llywodraeth Cymru yn cael ei dargedu ar hyn o bryd gan ddweud y byddai rhai pobl yn ei chael hi'n anodd bod yn gymwys i gael cymorth. Tynnodd y ddau sylw hefyd at faterion gyda'r Gronfa Cymorth Dewisol yn nodi cyfraddau isel ymhlith pobl hŷn sy'n manteisio ar y cymorth.⁵⁷

Yr hyn a ddywedodd Llywodraeth Cymru

46. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn ac awdurdodau lleol i annog pobl hŷn i hawlio Credyd Pensiwn. Gan ddechrau ym mis Ionawr 2025, byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu cynllun peilot i alluogi Policy in Practice i weithio gyda 12 awdurdod lleol i nodi preswylwyr sy'n gymwys i gael budd-daliadau gan gynnwys Credyd Pensiwn.

47. O ran creu cronfa ar wahân, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol wrthym nad oedd hyn yn bosibl oherwydd, yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, nid oedd y pwerau deddfwriaethol angenrheidiol wedi'u datganoli i Gymru.

48. Mewn ymateb i bryderon am y Gronfa Cymorth Dewisol, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod 17% o daliadau yn ystod y cyfnod adrodd diweddaraf wedi mynd i bobl dros 50 oed a bod y crynodiad mawr ar unigolion iau yn adlewyrchu anghenion plant a theuluoedd.⁵⁸

⁵⁴ [Tystiolaeth ysgrifenedig](#), Age Cymru

⁵⁵ [Tystiolaeth ysgrifenedig](#), y Comisiynydd Pobl Hŷn; National Energy Action Cymru

⁵⁶ [Cofnod y Trafodion](#), 9 Rhagfyr 2024

⁵⁷ [Tystiolaeth ysgrifenedig](#), Comisiynydd Pobl Hŷn, Cymdeithas MND

⁵⁸ [Cofnod y Trafodion](#), 27 Ionawr 2024

Ein barn ni

Rydym yn cydnabod i rai, y bydd y penderfyniad i ddod â Thaliadau Tanwydd Gaeaf cyffredinol i ben yn achosi pryder a chaledi posibl, yn enwedig i bensynwyr sydd ar fin bod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn. Clywsom alwadau am greu cronfa benodol i gefnogi pobl hŷn y gallai cyfyngiadau newydd ar gymhwysedd effeithio arnynt. Fel mater sydd heb ei ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru mewn ymateb wedi dweud wrthym nad oes ganddi'r pwerau angenrheidiol i sefydlu cronfa o'r fath.

Yn y dyfodol, bydd p'un a ydych yn cael y Taliad Tanwydd Gaeaf yn dibynnu ar p'un a ydych yn hawlio Credyd Pensiwn ond rydym yn ymwybodol nad yw pawb sy'n gymwys yn hawlio hwn ar hyn o bryd. Mae'r gwaith rhagweithiol gan awdurdodau lleol i nodi preswylwyr sy'n gymwys i gael budd-daliadau hyd yn oed yn bwysicach yn y cyd-destun hwn ac rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ariannu cynlluniau peilot sy'n ymwneud â Policy in Practice mewn 12 awdurdod lleol.

Casgliad 3. Rydym yn ailadrodd ein galwadau blaenorol (a wnaed yn fwyaf diweddar yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2025-26) i Lywodraeth Cymru ymdrechu'n fwy dygn i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn defnyddio methodoleg Policy in Practice yn gyffredinol.⁵⁹

⁵⁹ Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26](#).

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
25 Tachwedd 2024	Dr Simon Lannon, Prifysgol Caerdydd Yr Athro Phil Jones, Prifysgol Caerdydd
2 Rhagfyr 2024	Keryl Lanfear, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf David Mark Lewis, Cyngor Gwynedd Meilyr Tomos, Cyngor Gwynedd Jonathan Cosson, Cymru Gynnes Ben Saltmarsh, National Energy Action Cymru Steffan Evans, Sefydliad Bevan Hannah Peeler, Care & Repair

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	<p data-bbox="448 304 954 387">Mason Steed, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni</p> <p data-bbox="448 454 587 537">Ross Kirwan, Centrica</p> <p data-bbox="448 604 718 687">Fiona Cameron, Centrica</p>
9 Rhagfyr 2024	<p data-bbox="448 763 935 846">Rhian Bowen-Davies, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru</p> <p data-bbox="448 913 868 996">Dr Sumina Azam, Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p data-bbox="448 1064 868 1146">Dr Rebecca Hill, Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p data-bbox="448 1214 635 1296">Ceri Cryer, Age Cymru</p>
27 Ionawr 2025	<p data-bbox="448 1368 1366 1491">Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, Llywodraeth Cymru</p> <p data-bbox="448 1559 1294 1682">Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, Llywodraeth Cymru</p> <p data-bbox="448 1749 794 1832">Christine Grimshaw, Llywodraeth Cymru</p> <p data-bbox="448 1899 770 1982">Carol Driver, Llywodraeth Cymru</p>

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

Reference	Sefydliad
FP01	National Energy Action (NEA) Cymru
FP02	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
FP03	Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol
FP04	Age Cymru
FP05	Cymdeithas Clefyd Motor Neuron (MND)
FP06	Iechyd Cyhoeddus Cymru
FP07	Cyngor ar Bopeth Cymru
FP08	Cyngor Sir Powys
FP09	Gofal a Thrwsio Cymru
FP10	Tai Pawb, CIH Cymru a Shelter Cymru
FP11	Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych
FP12	Marie Curie
FP13	Sefydliad Bevan

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Eitem 5 Papur i nodi 5.2: gohebiaeth gan Archwilio Cymru	11 Tachwedd 2024
Eitem 4, Papur i nodi 4.6, Tystiolaeth ychwanegol gan Dr Simon Lannon ynghylch FRESH (Data Sylfaen ar gyfer Strategaethau Ynni Cadarn ar gyfer Tai)	9 Rhagfyr 2024
Eitem 3, Papur i nodi 3.4, gohebiaeth gan British Gas	13 Ionawr 2025
Teitl 3 Eitem 2, Papur i nodi 1: gohebiaeth gan NEA Cymru	24 Mawrth 2025